# Cylchlythyr YGG Llwynderw/*YGG Llwynderw Newsletter*

## 21.04.2023

| | |
|---|---|
| Patrwm yr wythnos/ *Pattern of the week* | Odd fi wedi ✗ Berfau -ais ✓ |
| Idiom yr wythnos / *Idiom of the week* | Gwyn y gwel y fran ei chyw *Translation -The crow sees its chicks as being pure* *Meaning - Parents always see their children as perfect* |
| Testun trafod yr wythnos *Discussion topic of the week* | Cymwynas dda rydw i wedi gwneud oedd... *A good favor I have done was...* |
| Artist Cerddorol y Mis/ *Musician of the month* Bardd y mis/ *Poet of the month* | Elin Manahan Thomas Mei Mac |

### Hawl y mis/ *Right of the month*

I fwyd, dwr a gofal meddygol

*To food, water and medical care*






Dewch i ymuno â'n tîm.....

**Rydym yn chwilio am berson brwdfrydig, cymwysedig i arwain ar ein clwb terfyn dydd. Os ydych chi, neu rywun yr ydych yn nabod gyda diddordeb, cysylltwch â'r swyddfa am fwy o fanylion.**

*COME AND JOIN OUR TEAM....*

***We are looking for an enthusiastic, qualified person to lead our after school club. If you, or someone you know, are interested please contact the office for more information.***



Hoffem atgoffa pawb unwaith eto i ymatal rhag dod â chŵn ar dir yr ysgol unrhyw bryd. Ar wahân i'r risgiau iechyd amlwg, gall hefyd achosi ing a phryder i rai plant, yn ogystal ag oedolion. Diolch am eich cyd-weithrediad gyda hwn.

*We would like to kindly remind everyone once again to refrain from bringing dogs onto school grounds at any time. Apart from the obvious health risks, it can also cause anguish and anxiety to some children, as well as adults. Thank you for your co-operation with this.*



**Fel y gwyddoch, rydym wedi dyrchafu ein hyrwyddiad o'r Gymraeg** dros y misoedd diwethaf sydd yn cael effaith gadarnhaol **amlwg ar y plant a sut maent yn defnyddio'r iaith tra** yn yr ysgol. Rydyn ni nawr yn eich annog chi fel rhieni i ymuno â ni trwy ffarwelio â'ch plant yn y bore yn Gymraeg. Edrychwch am yr arwyddion newydd wrth gatiau'r ysgol am ddywediadau Cymraeg!

*As you are aware, we have elevated our promotion of the Welsh language over the past few months which is having a clear positive affect on the children and how they use the language while in school. We are now encouraging you as parents to join us by farewelling your children off in the morning in Welsh. Look out for the new signs at the school gates for Welsh sayings!*

Spotify https://open.spotify.com/playlist/0DBrJviYAO0IMtj4TdTIjG

https://www.yggllwynderw.co.uk/siarter-iaith-welsh-charter/

Er gwybodaeth, bydd Roz a Kirsty, ffotograffwyr yr ysgol, yn dod i mewn ar ddydd Mawrth Mai 9fed i dynnu lluniau grŵp dosbarth. Gwerthfawrogwn y gall hyn fod yn gostus i chi fel rhieni felly, oherwydd yr hinsawdd bresennol, rydym wedi penderfynu tynnu lluniau o'r plant yn eu grŵp blwyddyn ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn unig yn hytrach na bob blwyddyn; felly meithrin, blwyddyn 2 a blwyddyn 6. Gobeithiwn y bydd y penderfyniad hwn yn cyd-fynd â'ch cymeradwyaeth.

*For your information, Roz and Kirsty, the school photographers, will be coming in on Tuesday May 9th to take class group photos. We appreciate that this can be costly to you as parents therefore, due to the current climate, we have decided to only photograph the children in their year group at the end of key stages rather than every year; therefore nursery, year 2 and year 6. We hope this decision meets with your approval.*


**Wefan yr ysgol/ *School website:* yggllwynderw.co.uk**

**E-bost yr ysgol/ *School e-mail:* 6702235_yggllwynderw@hwbcymru.net**